# GAN ODDEF EICH GILYDD MEWN CARIAD

## Llythyr Bugeiliol i Deulu Asaph oddi wrth yr Esgob
## Y Groes Sanctaidd, 14 Medi 2021

Yr wythnos ddiwethaf, penderfynodd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru gan fwyafrif o ddwy ran o dair ym mhob un o'i dai (lleygwyr, clerigion, esgobion), ganiatáu'r esgobion, yn eu hesgobaethau, i awdurdodi Gwasanaeth o Fendith ar Bartneriaethau Sifil o'r Un Rhyw. Golyga hynny y caniateir i gyplau o'r un rhyw, sydd wedi cynnal priodas neu bartneriaeth sifil o dan gyfraith Cymru a Lloegr, ofyn am Fendith mewn unrhyw un o Eglwysi ein hesgobaeth ni, o gofio fy mod i, gyda'm cyd esgobion, yn cyhoeddi'r llythyr priodol o awdurdodiad y dydd Llun hwn, a ddaw i rym o 1af Hydref.

Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod ers amser maith ac mae yna rai a fydd yn cymeradwyo a rhai a fydd yn cael eu poeni'n arw gan y penderfyniad. I'r rhai sy'n croesawu'r penderfyniad, gan gynnwys llawer o chwiorydd a brodyr hoyw a lesbiaid sy'n Gristnogion yn ein teulu esgobaethol, mae'n arwydd o ryddid a llawenydd, wrth i'r Eglwys gydnabod y ffyddlondeb o ymrwymiad cariadus y mae'r uniadau hyn yn eu cynrychioli, ac a fydd yn caniatáu i'r rhai sy'n byw mewn perthnasau cariadus ymrwymedig ddod â'u ffydd a'u bywydau personol ynghyd i gael eu cydnabod yn gyhoeddus ym mywyd yr Eglwys.

I eraill yn ein teulu, bydd yn frwydr wirioneddol derbyn a chymodi â'r penderfyniad hwn. Iddyn nhw, mae priodas rhwng un dyn ac un wraig, ac mae'r Beibl yn gwbl glir yn ei ddysgeidiaeth mai dyma'r unig gyd-destun y mae Duw yn ei ganiatáu ar gyfer perthynasau rhywiol. Mae'r canon newydd (cyfraith yr Eglwys) yn cydnabod y gwahaniaeth mewn argyhoeddiad trwy roi hawl cydwybod: na fydd raid i unrhyw glerigwr ddefnyddio'r gwasanaeth, ac, os daw cais, ac nad yw'r clerigwr yn teimlo ei fod neu ei bod yn gallu cynnal bendith o'r fath, yna rwyf wedi dweud wrth ein clerigion y dylen nhw gyfeirio'r cwpl ataf i fel Prif Fugail yr esgobaeth.

Sut ddylai Cristnogion ymddwyn pan fydd gwahaniaethau fel hyn yn ymddangos yn ein bywydau? Yn gyntaf mae'n rhaid bod yn driw i'n hargyhoeddiadau ni ein hunain *mewn modd graslon,* sy'n golygu peidio â beirniadu argyhoeddiadau pobl eraill. Yn fy meddwl i, mae yna wahaniaeth mawr rhwng dweud "Rwy'n credu fod y Beibl yn dysgu hyn" a "Rydych chi'n anffyddlon i ddysgeidiaeth y Beibl". Efallai nad yw'n swnio'n wahanol iawn - efallai, yn rhesymegol, fod un yn dilyn y llall - ond rwy'n meddwl y dylen ni siarad yn ein cylch ni ein hunain yn unig a pheidio â dechrau labelu eraill. Pam? Oherwydd pan fod yna wahaniaeth barn llym, mae'n rhy hawdd hawlio'r "tir uchel" - yn debyg i'r cardinal a gafodd ei ddyfynnu unwaith yn dweud: "Cewch chi addoli Duw yn eich ffordd chi a byddwn ni'n Ei addoli yn ei ffordd Ef" - ac ymddangos petai'n israddio pobl eraill. Rhaid i ni gofio fod Duw yn ein galw i ostyngeiddrwydd. *(Rhufeiniaid 12.3*)

Yn ail, sut i ymateb i eraill? Fe ddylem fynd â'r mater at Dduw mewn gweddi, a pheidio â meddwl y gallwn ni ddatrys y broblem trwy'n dicter ein hunain. *(Iago 1.19,20).* Yn wir, rwy'n credu y dylem ni geisio trin ein gilydd yn garedig, ac ymdrechu i ddeall safbwyntiau pobl eraill ac o ble maen nhw'n dod - goddef ein gilydd mewn cariad *(Effesiaid 4.2)* a phriodoli'r cymhellion gorau, nid y gwaethaf, i ni'n hunain . Nid yw o fudd i neb bod un ochr yn cael ei chyhuddo o ragfarn a'r llall o blygu i ysbryd yr oes. Mewn gwirionedd mae'r ddwy ochr yn ceisio dirnad beth mae Crist yn ei ofyn ohonom o ran ufudd-dod ffyddlon pan mae'n dod i bartneriaeth bywyd a dymuniad.

Yn drydydd, rwy'n credu bod yn rhaid i ni gydnabod fod cymaint o Gristnogion ffyddlon yn dod i gasgliadau gwahanol iawn, iawn wrth weddïo a thrafod y materion hyn. Nid achos o anghytuno'n unig ydyw: mae llawer o'r Cristnogion mwyaf ffyddlon y gwn i amdanyn nhw wedi dod i'r casgliad fod tosturi yn eu gyrru i fod yn gynhwysol, hyd yn oed wrth i eraill deimlo fod ufudd-dod yn eu gorchymyn i atal cymeradwyaeth. Yn y pendraw, rwyf i'n bersonol yn gobeithio y bydd Cristnogion yn dysgu cytuno i anghytuno ar y mater hwn, fel yr ydym ni wedi dysgu byw i anghytuno ar gymaint o faterion eraill. Dylwn gofio fod y rhai sy'n teimlo fod y datblygiad hwn mor anodd, yn credu fod y Beibl mor glir ar y mater hwn nes bod ei ddehongli mewn unrhyw ffordd arall yn golygu gwyrdroi'r ysgrythurau. Ar y llaw arall, nid yw'r rhai sydd wedi croesawu'r newid hwn (ac rydych eisoes yn gwybod fy mod i yn eu plith) yn gallu credu y gellir defnyddio'r adnodau rydym ni'n deall eu bod yn condemnio anfoesoldeb i gondemnio cyplau sydd ym mhob ffordd yn dangos disgyblaeth ffyddlon, ymrwymedig ac sy'n dwyn ffrwyth gwaith yr Ysbryd dros ddegawdau yn eu bywydau.

Rwy'n gallu gweld y bydd rhai yn ystyried bod fy ymateb yn niwlog ac yn siomedig nad wyf i, fel esgob, yn amddiffyn y safbwynt traddodiadol.  Fodd bynnag, fel y dywedais yn y Corff Llywodraethol, os yw fy mrodyr a'm chwiorydd hoyw, a lesbiaidd, nad wyf yn gweld ond integriti, cariad a ffyddlondeb yn eu bywydau fel unigolion, eisiau bendith Duw ar eu bywydau gyda'i gilydd, ni allaf ac ni fyddaf yn eu gwahardd.  Rwy'n teimlo mor ddwfn ac angerddol ynghylch hyn fel na fyddwn yn driw i fy ffydd fy hunan, nac i'm integriti fy hunan, pe byddai disgwyl i mi barhau anghyfiawnder a phentyrru gwarth ar ben pobl rwy'n gwybod eu bod yn ceisio byw'n sanctaidd.